

**Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn**  
**Answers to Questions not reached in Plenary**  
**07/02/2007**

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

**Cynnwys**  
**Contents**

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid  
Questions to the Finance Minister
- 2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad  
Questions to the Minister for Environment, Planning and Countryside

**Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid**  
**Questions to the Finance Minister**

**Cefnogi Pobl sy'n Agored i Niwed**  
**Supporting Vulnerable People**

**Q11 Mark Isherwood:** What consideration did the Minister give to supporting vulnerable people in Wales when setting the Assembly's budget? OAQ0777(FIN)

**The Finance Minister (Sue Essex):** Our priorities for funding are set out in the final budget. This budget will enable us to achieve the implementation of our top 10 'Wales: A Better Country' commitments, meeting pay and price pressures, providing more capital investment, meeting the concerns of Assembly committees and reflecting the discussions held with the opposition parties.

**C11 Mark Isherwood:** Pa ystyriaeth a roddodd y Gweinidog i gefnogi pobl agored i niwed yng Nghymru wrth bennu cyllideb y Cynulliad? OAQ0777(FIN)

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Mae ein blaenoriaethau ar gyfer cyllido wedi eu hamlinellu yn y gyllideb derfynol. Bydd y gyllideb hon yn ein caniatáu i weithredu ein 10 prif ymrwymiad yn 'Cymru: Gwlad Well', gan ymateb i bwysau cyflogau a phrisiau, darparu mwy o fuddsoddiad cyfalaf, tawelu pryderon pwyllgorau'r Cynulliad ac adlewyrchu'r trafodaethau a gynhaliwyd â'r gwrthbleidiau.

**Cyfraddau Llog**  
**Interest Rates**

**Q12 Mick Bates:** What assessment has the Minister made of the impact of the recent rise in interest rates on the Assembly's budget? OAQ0769(FIN)

**Sue Essex:** The Assembly manages its spending pressures within the departmental expenditure limit, which is set through the UK spending review process.

**C12 Mick Bates:** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith y cynnydd diweddar mewn cyfraddau llog ar gyllideb y Cynulliad? OAQ0769(FIN)

**Sue Essex:** Mae'r Cynulliad yn rheoli ei bwysau gwariant o fewn y terfyn gwariant adrannol, sy'n cael ei bennu drwy broses adolygu gwariant y DU.

## **Anghenion Pobl Ifanc The Needs of Young People**

**Q13 Peter Black:** Will the Minister make a statement on how she took into account the needs of young people in Wales in drawing up her draft budget? OAQ0750(FIN)

**C13 Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut yr aeth ati i ystyried anghenion pobl ifanc yng Nghymru wrth lunio ei chyllideb ddrafft? OAQ0750(FIN)

**Sue Essex:** The draft budget took into account the commitments set out in 'Wales: A Better Country'.

**Sue Essex:** Yr oedd y gyllideb ddrafft yn ystyried ymrwymïadau 'Cymru: Gwlad Well'.

## **Y Portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol The Health and Social Services Portfolio**

**Q14 Glyn Davies:** What plans does the Minister have to increase the budget provision for the health and social services portfolio? OAQ0791(FIN)

**C14 Glyn Davies:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gynyddu'r gyllideb a ddarperir ar gyfer y portffolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol? OAQ0791(FIN)

**Sue Essex:** I have no immediate plans to increase the budget for the health and social services portfolio.

**Sue Essex:** Nid wyf yn bwriadu cynyddu'r gyllideb ar gyfer y portffolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ar hyn o bryd.

## **Y Portffolio Menter, Arloesi a Rhwydweithiau The Enterprise, Innovation and Networks Portfolio**

**Q15 Carl Sargeant:** What were the Minister's priorities in determining the overall budget provision for the enterprise, innovation and networks portfolio for 2006-07? OAQ0772(FIN)

**C15 Carl Sargeant:** Beth oedd blaenoriaethau'r Gweinidog wrth bennu'r gyllideb gyffredinol a ddarperir ar gyfer y portffolio menter, arloesi a rhwydweithiau ar gyfer 2006-07? OAQ0772(FIN)

**Sue Essex:** My priorities are set out in 'Wales: A Better Country'. I also discussed portfolio priorities with the the Minister for Enterprise, Innovation and the Networks and the Enterprise, Innovation and Networks Committee.

**Sue Essex:** Nodir fy mlaenoriaethau yn 'Cymru: Gwlad Well'. Yn ogystal, trafodais flaenoriaethau'r portffolio gyda'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau a'r Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau.

## **Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad Questions to the Minister for Environment, Planning and Countryside**

### **Tipio Anghyfreithlon Fly-tipping**

**Q2 Karen Sinclair:** What action is the Minister taking to support local authorities in dealing with fly-tipping offences? OAQ1060(EPC) *Transferred for written answer.*

**C2 Karen Sinclair:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i gefnogi awdurdodau lleol i fynd i'r afael â throseddau tipio anghyfreithlon? OAQ1060(EPC) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig.*

**The Minister for Environment, Planning and Countryside (Carwyn Jones):** The Welsh Assembly Government has published the fly-tipping strategy. We are supporting a partnership approach and a number of projects to trial new ways of tackling fly-tipping. This includes funding enforcement training for local authority staff, which will lead to better conviction rates for offences, discouraging potential fly-tippers.

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi'r strategaeth tipio anghyfreithlon. Yr ydym yn cefnogi ymagwedd bartneriaeth a nifer o brosiectau i dreialu ffyrdd newydd o fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon. Mae hyn yn cynnwys cyllido hyfforddiant gorfodi i staff awdurdodau lleol, a fydd yn arwain at gyfraddau collfarnu gwell am droseddau, gan atal pobl sy'n gyfrifol am dipio anghyfreithlon.

*Atebwyd cwestiynau 3 i 11 yn y Cyfarfod Llawn.  
Questions 3 to 11 were answered in Plenary.*

### **Gwella Hinsawdd Aer Improving Air Quality**

**Q12 David Melding:** What measures has the Welsh Assembly Government put in place to improve air quality in South Wales Central? OAQ1025(EPC)

**C12 David Melding:** Pa fesurau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u sefydlu i wella ansawdd aer yng Nghanol De Cymru? OAQ1025(EPC)

**Carwyn Jones:** There are currently four air quality management areas within the South Wales Central constituency area. Local authorities are required continually to assess ambient air quality and implement achievable and focused action plans under the requirements of the local air quality management regime.

**Carwyn Jones:** Mae pedair ardal rheoli ansawdd aer o fewn ardal etholaethol Canol De Cymru ar hyn o bryd. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol asesu ansawdd aer yr amgylchedd yn barhaus a rhoi cynlluniau gweithredu cyrraeddadwy a phenodedig ar waith o dan y gyfundrefn rheoli ansawdd aer lleol.

### **Tipio Anghyfreithlon Fly-tipping**

**Q13 William Graham:** Will the Minister outline the guidance that the Welsh Assembly Government has given to local authorities to tackle fly-tipping? OAQ1062(EPC)

**C13 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r arweiniad y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei roi i awdurdodau lleol i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon? OAQ1062(EPC)

**Carwyn Jones:** The recent publication of the Welsh Assembly Government's fly-tipping strategy, 'Local Environmental Quality: Tackling Flytipping', encourages local authorities to follow a partnership approach to tackling the problem of fly-tipping and sets out examples of best practice.

**Carwyn Jones:** Mae cyhoeddiad diweddar strategaeth tipio anghyfreithlon Llywodraeth Cynulliad Cymru, 'Local Environmental Quality: Tackling Flytipping', yn annog awdurdodau lleol i weithio mewn partneriaeth er mwyn mynd i'r afael â'r broblem o dipio anghyfreithlon ac yn nodi enghreifftiau o arfer gorau.

## **Ansawdd Dwr Môr The Quality of Sea Water**

**Q14 John Griffiths:** Will the Minister make a statement on Welsh Assembly Government policies to further improve the quality of sea water around the coast of Wales?  
OAQ1012(EPC)

**C14 John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella ymhellach ansawdd dwr môr o amgylch arfordir Cymru?  
OAQ1012(EPC)

**Carwyn Jones:** I place a high priority on maintaining and improving the quality of our bathing waters, as outlined in the environment strategy for Wales. In 2006 all but one of the 80 bathing waters in Wales met mandatory European standards and 89 per cent (71) met the more stringent guideline standards.

**Carwyn Jones:** Yr wyf yn ystyried cynnal a gwella ansawdd ein dyfroedd ymdrochi yn flaenoriaeth hynod bwysig, fel yr amlinellwyd yn y strategaeth amgylcheddol ar gyfer Cymru. Yn 2006 llwyddodd pob un ond un o'r 80 o ddyfroedd ymdrochi yng Nghymru i gyrraedd y safonau Ewropeaidd gorfodol a llwyddodd 89 y cant (71) i gyrraedd y safonau canllaw llymach.

## **Targedau Cerrig Milltir y Strategaeth Amgylcheddol Environment Strategy Milestone Targets**

**Q15 Brynle Williams:** What progress has the Welsh Assembly Government made in meeting the milestone targets in the environment strategy for Wales action plan?  
OAQ1032(EPC)

**C15 Brynle Williams:** Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei wneud o ran bodloni'r targedau cerrig milltir yng nghynllun gweithredu strategaeth amgylcheddol Cymru?  
OAQ1032(EPC)

**Carwyn Jones:** Good progress has been made in delivering the actions of the environment strategy action plan. An update report will be presented to Environment, Planning and Countryside Committee in March.

**Carwyn Jones:** Gwnaed cynnydd da o ran cyflawni camau'r cynllun gweithredu'r strategaeth amgylcheddol. Cyflwynir y wybodaeth ddiweddaraf i Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ym mis Mawrth.